# Y CYNGOR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH DDYDD MAWRTH 25ED GORFFENNAF 2017 AM 5.00PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd J. Bevan – Maer
Y Cynghorydd M. Adams – Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

Mrs E. Aldworth, C. Andrews, A. Angel, P.J. Bevan, C. Bezzina, S. Cook, C. Cuss, W. David, M. Davies, D.T. Davies, C. Elsbury, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, J.E. Fussell, A. Gair, Ms J. Gale, N. George, C. Gordon, R.W. Gough, L. Harding, D. Harse, D. Havard, A. Higgs, A. Hussey, L. Jeremiah, G. Johnston, G. Kirby, Mrs A. Leonard, Ms P. Leonard, C.P. Mann, Mrs P. Marsden, S. Morgan, Mrs G. Oliver, B. Owen, T. Parry, Mrs L. Phipps, D.V. Poole, D.W.R. Preece, J. Pritchard, J.E. Roberts, Mrs M.E. Sargent, J. Scriven, G. Simmonds, J. Simmonds, Mrs E. Stenner, J. Taylor, A. Whitcombe, R. Whiting, L G. Whittle, T. Williams, B. Zaplatynski

Ar y cyd â:-

C. Burns (Prif Weithredwr Interim), D. Street (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol), N. Scammell (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro), C. Harrhy (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau), G. Williams (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro Interim), R. Hartshorn (Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd), T. Stephens (Rheolwr Rheoli Datblygu), K. Forty (Swyddog Datblygu Tai), V. Morgan (Prif Gynllunydd/Ystadegydd), C Forbes-Thompson (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Interim), H. Morgan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

### 1. ADNODDAU CYFIEITHU I'R GYMRAEG

Rhoddodd y Maer wybod i Aelodau fod datganiad bellach wedi'i gynnwys ar dudalen flaen yr agenda yn hysbysu bod croeso i Aelodau ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod cyfarfodydd. Gofynnir i Aelodau roi rhybudd cyn y cyfarfod os byddant yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn ystod y cyfarfod fel y gellir trefnu adnoddau cyfieithu mewn da bryd.

Croesawodd Aelodau'r opsiwn i ddefnyddio adnoddau cyfieithu ar gais.

### 2. FFILMIO AR GYFER GWEDDARLLEDU A THREFNIADAU PLEIDLEISIO

Cafodd y rhai a oedd yn bresennol eu hatgoffa gan y Prif Weithredwr Interim fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ac y byddai ar gael yn fyw i'r cyhoedd ac yn yr archif drwy wefan y Cyngor. Cynghorodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud trwy godi dwylo.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am eu habsenoldeb gan y Cynghorwyr L. Binding, A. Collis, D. Cushion, K. Dawson, N. Dix, Mrs C. Forehead, Ms E. Forehead, D.T. Hardacre, M. James, V. James, Mrs B. Jones, S. Kent, B. Miles, Mrs D. Price, J. Ridgewell, R. Saralis, S. Skivens, C. Thomas ac W. Williams.

## 4. CYHOEDDIADAU'R MAER

Cyfeiriodd y Maer at y digwyddiadau a'r ymweliadau niferus y mae ef a'r Dirprwy Faer wedi ymgymryd â nhw ers y cyfarfod diwethaf a chyfeiriodd yn benodol at ymweliad Tywysog Siarl â Llancaiach Fawr i agor arddangosfa newydd a dau wahanol gyflwyniad pen-blwydd yn 100 oed.

## 5. CYFLWYNIADAU

### Gwobr Ymwybyddiaeth Awtistiaeth

Cyhoeddwyd mai Gwasanaeth Chwaraeon a Hamdden Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yw'r cyntaf yng Nghymru i gael Gwobr Sefydliad 'Ymwybodol o Awtistiaeth' gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.  Yn ddiweddar, mae dros 125 o swyddogion wedi cael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth awtistiaeth ac mae'r wobr hon yn cydnabod eu gwaith i gynorthwyo plant ac oedolion ag awtistiaeth i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden. Mae Swyddogion y Gwasanaeth Chwaraeon a Hamdden wedi dangos lefel uchel o ymroddiad ac ymrwymiad er mwyn ennill y statws clodwiw hwn.

Derbyniodd Mike Jones a Jeff Reynolds y wobr ar ran y gwasanaeth.  I gydnabod y llwyddiant, roedd Aelodau'n dymuno bod eu gwerthfawrogiad i bawb a fu ynghlwm wrth y prosiect yn cael ei gofnodi.

### Gwobrau'r Sefydliad Siartredig Safonau Masnach

Rhoddwyd gwybod i Aelodau fod 'Gwobr Cyfraniad Arbennig' wedi'i chyflwyno i Tim Keohane yng Ngwobrau Blynyddol y Sefydliad Siartredig Safonau Masnach yn ddiweddar. Cafodd Tim, sy'n Uwch Swyddog Safonau Masnach, y wobr am ei flynyddoedd lawer o roi o'i amser yn wirfoddol i reoli'r arddangosfa yn un o Gynadleddau mwyaf Ewrop ynghylch Safonau Masnach a'r Defnyddiwr.

Daeth Tim Keohane ymlaen fel y gallai Aelodau gydnabod y wobr a gwnaethant ei longyfarch ar ei lwyddiant.

### Gwobrau Diogelwch y Ffordd

Adroddwyd bod Dilys Powell, Cynorthwyydd Addysgu yn Ysgol y Lawnt, wedi ennill Gwobr Diogelwch y Ffordd Cymru yn ddiweddar.  Gyda chymorth gan Dîm Diogelwch y Ffordd y Cyngor, mae Dilys wedi gweithio i roi nifer o fentrau ar waith, gan gynnwys bws cerdded, sydd â dros 50 o ddisgyblion a rhieni'n cerdded i'r ysgol bob wythnos, a diwrnodau beicio a sgwter.  Mae'r mentrau hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn yn sicrhau bod disgyblion yn cael hwyl, tra'n defnyddio dulliau teithio cynaliadwy.

Daeth Dilys Powell a Susan Davies, Swyddog Prosiectau Diogelwch y Ffordd, ymlaen fel y gallai Aelodau gydnabod y wobr a gwnaethant eu llongyfarch ar eu llwyddiant.

## 6. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

## 7. Y CYNGOR – 13EG MEHEFIN 2017

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion canlynol yn gofnodion cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Maer.

Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 13eg Mehefin 2017 (cofnodion rhifau 1 - 16 ar dudalennau rhifau 1 - 8).

## ADRODDIADAU SWYDDOGION

Ystyriwyd yr adroddiadau canlynol.

## 8. CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL CDLL1 – RHWYMEDIGAETHAU TAI FFORDDIADWY

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am fabwysiadu'n ffurfiol fersiwn ddiwygiedig o CDLl1 – Rhwymedigaethau Tai Fforddiadwy yn Ganllawiau Cynllunio Atodol i Gynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd at 2021, ac a oedd yn cynnig rhoi pwerau dirprwyedig i Swyddogion, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet perthnasol, ar gyfer diwygiadau yn y dyfodol i werthoedd penodedig ar gyfer trosglwyddo unedau fforddiadwy.

Esboniodd y Rheolwr Rheoli Datblygu fod y system gynllunio yn darparu tai fforddiadwy trwy roi caniatâd yn uniongyrchol i gymdeithasau tai a thrwy sicrhau bod cyfran o ddatblygiadau tai preifat yn fforddiadwy hefyd (tai i'w rhentu a pherchentyaeth cost isel). Mae polisi yn y cynllun datblygu lleol sy'n gofyn am ddarparu tai fforddiadwy fel rhan o ddatblygiadau tai, gyda thargedau ar gyfer cyfran y tai fforddiadwy, yn dibynnu ym mha ran o'r fwrdeistref fydd y datblygiad arfaethedig.

Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol, a fabwysiadwyd gyntaf yn 2011, yn amlinellu glo mân cyflawni gofynion y polisi, gan gynnwys p'un a gaiff y tai eu darparu ar safle, neu i ffwrdd o safle neu, mewn amgylchiadau eithriadol, trwy ddarparu swm gohiriedig. Mae cyngor ar ddylunio, tai anghenion arbennig a rhestr gaiff ei diweddaru'n flynyddol o werthoedd ar gyfer trosglwyddo tai o'r adeiladwyr tai i'r landlordiaid cymdeithasol.

Bellach mae angen diwygio elfennau o'r ddogfen i adlewyrchu mân newidiadau i gyd-destun y polisi cynllunio, yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, cyflwyno'r Ardoll Seilwaith Cymunedol a mân newidiadau trefniadol. Yn ogystal, bydd y diwygiadau'n rhoi'r hyblygrwydd fel y gellir trosglwyddo unedau tai fforddiadwy newydd naill ai i'r awdurdod lleol neu i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig at ddibenion rheoli.

Nodwyd bod y ddogfen wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Chwefror 2017, pan gafwyd tri ymateb, oll gan gynrychiolwyr y diwydiant datblygu. Mae swyddogion wedi ystyried yr ymatebion hyn (sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 yr adroddiad) a chynigir gwneud nifer bach o fân newidiadau i ddogfen yr ymgynghoriad er mwyn bod yn fwy eglur. Yn sgil ei mabwysiadu, bydd y ddogfen ddiwygiedig yn disodli fersiwn 2011 a chaiff ei rhoi ar wefan y Cyngor.

Yn draddodiadol, mae'r Awdurdod Lleol wedi pennu y bydd yr unedau a sicrheir fel rhan o geisiadau cynllunio'n cael eu trosglwyddo i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig o ddewis, yn ôl y gwerthoedd penodedig sydd wedi'u disgrifio yn Atodiad 3 y Canllawiau Cynllunio Atodol. Fodd bynnag, gallai fod yn bosibl yn y dyfodol i'r Awdurdod Lleol yn hytrach na Landlord Cymdeithasol Cofrestredig gymryd rheolaeth ar unedau cymdeithasol ar rent, a ddarperir trwy gytundebau Adran 106. Roedd aelodau'n falch o nodi bod y Canllawiau

Cynllunio Atodol diwygiedig, er mwyn caniatáu am yr hyblygrwydd i wneud hyn yn y dyfodol, yn cyfeirio at yr opsiwn o allu trosglwyddo unedau cymdeithasol ar rent naill ai i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig neu i'r Awdurdod Lleol. Mae'r Adran Tai wedi ystyried ymarferoldeb prynu eiddo cymdeithasol ar rent Adran 106 yn ôl y gwerthoedd yn y Canllawiau Cynllunio Atodol a byddai hynny'n bosibl ar sail y rhenti y gellir eu codi am yr eiddo.

Yn ystod y drafodaeth, mynegwyd pryderon nad yw'r targed ar gyfer tai fforddiadwy, sef 40%, yn cael ei gyflawni. Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu fod y gofyniad i ateb yr angen am dai fforddiadwy yn ystyriaeth gynllunio berthnasol ac y byddai'n cael ei ystyried wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Sicrheir tai fforddiadwy fel rhan o'r system gynllunio ac mae'r gofynion ar gyfer darparu'r unedau hyn wedi'u hamlinellu mewn cytundeb Adran 106.

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r trothwyon a fydd yn ysgogi galwad am lefel o dai fforddiadwy a lefelau targed y tai fforddiadwy y bydd eu hangen mewn ardaloedd marchnad penodol o fewn y Fwrdeistref Sirol. Fodd bynnag, targed nid gorchymyn yw'r 40% a bydd pob achos yn ystyried costau tai fforddiadwy gyda chostau eraill. Lle y bydd tystiolaeth o angen, mae Swyddogion yn gallu cyd-drafod targedau o 40% o gyfanswm nifer yr anheddau a gynigir ar safleoedd ym Masn Caerffili (heb gynnwys Cwm Aber); 25% yng Nghoridor Cysylltiadau'r Gogledd (heb gynnwys Trecelyn); a 10% yng ngweddill Bwrdeistref Sirol Caerffili (gan gynnwys Cwm Aber a Threcelyn ond heb gynnwys Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd). Gallai fod yn briodol ailystyried y gofynion am dai fforddiadwy ar sail asesiad o ymarferoldeb, fesul safle penodol.

Cynigiodd Mr Stephens roi hyfforddiant i Aelodau ar y dull o asesu costau a dod i ganran rhesymol o dai fforddiadwy, a chroesawodd Aelodau'r cynnig hwn.

Gan nodi y byddai seminar yn cael ei drefnu i ystyried y dull o asesu costau a dod i ganran rhesymol o dai fforddiadwy, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad:

(i) bod y sylwadau a gafwyd fel rhan o'r ymgynghoriad â'r cyhoedd yn cael eu nodi a bod yr argymhellion yn Adroddiad yr Ymgynghoriad yn cael eu cymeradwyo;

(ii) mabwysiadu Rhwymedigaethau Tai Fforddiadwy (Diwygio) CDLl1 yn ffurfiol yn Ganllawiau Cynllunio Atodol i Gynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd at 2021;

(iii) rhoi pwerau dirprwyedig i Swyddogion mewn ymgynghoriad ag Aelodau perthnasol y Cabinet, i ddiweddaru Atodiad 3 y Canllawiau Cynllunio Atodol fel bo'r angen i adlewyrchu ffigurau wedi'u diweddaru, yn y gwerthoedd penodedig ar gyfer trosglwyddo unedau o ddatblygwr i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig neu'r Awdurdod Lleol.

## 9. ETHOL EIRIOLWR IEUENCTID CAERFFILI

Ystyriwyd adroddiad a oedd yn amlinellu cynlluniau i benodi Eiriolwr Ieuenctid Caerffili am gyfnod 5 mlynedd (2017-2022) a chynigion manwl ar gyfer y broses ethol.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Interim fod yr Eiriolwr Ieuenctid yn fenter allweddol ar gyfer cyflawni cyfrifoldeb y Cyngor am gynyddu nifer y bobl sy'n pleidleisio mewn etholiadau ac mae'n darparu'r ddolen rhwng pobl ifanc yn y fwrdeistref sirol ac aelodau etholedig.

Esboniwyd bod y Cyngor, yn y blynyddoedd diwethaf ac er mwyn ethol Eiriolwr Ieuenctid, wedi cymryd rhan mewn digwyddiad cenedlaethol o'r enw "I'm a Councillor, Get me out of Here!!", sef digwyddiad ar y we a oedd yn gofyn i Ymgeiswyr osod eu maniffestos ar-lein a chymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb, dros gyfnod o bythefnos, gyda phobl ifanc o'r fwrdeistref sirol. Yn ystod wythnos "Getting to Know you", cafwyd pleidlais ar ddiwedd bob dydd, gyda'r ymgeisydd â'r nifer lleiaf o bleidleisiau'n cael ei ddileu o'r gystadleuaeth. Mae hyn yn parhau hyd nes bod yr ymgeisydd olaf yn cael ei goroni'n 'Eiriolwr Ieuenctid'. Cynigir bod y broses hon yn parhau ar gyfer pob etholiad yn y dyfodol.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cynigiwyd diwygiad, sef y dylai cyfnod yr Eiriolwr Ieuenctid yn ei swydd gadw at 2 flynedd ac na ddylid ei ymestyn i 5 mlynedd, fel y mae'r adroddiad yn ei gynnig. Cytunodd cynigwyr y cynnig y gellid ymgorffori hyn yn ei cynnig. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad:

(i) bod cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi ac y cynigir cefnogaeth barhaus i waith yr Eiriolwr Ieuenctid;

(ii) na chefnogir cynigion i ymestyn y Broses Ethol arfaethedig ar gyfer yr Eiriolwr Ieuenctid i 5 mlynedd a bod cyfnod yr eiriolwr mewn swydd yn gyfnod 2 flynedd.

Roedd Aelodau'n dymuno bod eu gwerthfawrogiad i'r cyn Eiriolwr Ieuenctid, Mike Prew, yn cael ei gofnodi, a gwnaethant dalu teyrnged i'r modd yr oedd wedi ymgymryd â'i rôl, yn ymroi i flaenoriaethau'r Fforwm Ieuenctid ac yn eu cefnogi.

## 10. GWEITHREDU DEDDF MEWNFUDO 2016 A DIWYGIADAU CYSYLLTIEDIG I DDATGANIAD POLISI TRWYDDEDU'R AWDURDOD

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn amlinellu gweithredu Deddf Mewnfudo 2016 a'r newidiadau deddfwriaethol y mae'n eu cyflwyno i Ddeddf Trwyddedu 2003 a diwygiadau cysylltiedig a argymhellir i'r Datganiad Polisi Trwyddedu. Ystyriodd y Pwyllgor Trwyddedu a Hapchwarae'r adroddiad hwn ar 13eg Gorffennaf 2017 ac, wrth gymeradwyo'i gynnwys, argymhellodd fod y Cyngor yn ei dderbyn.

Rhoddwyd gwybod i Aelodau fod Deddf Mewnfudo 2016 yn diwygio Deddf Trwyddedu 2003 er mwyn cyflwyno trefniadau diogelu yn gysylltiedig â mewnfudo mewn perthynas â mathau penodol o drwyddedau, a dechreuodd hyn ar 6ed Ebrill 2017. Mae'r newidiadau hefyd yn cynnwys rhestru Gorfodi Mewnfudo'r Swyddfa Gartref yn Awdurdod Cyfrifol a rhoi iddo bwerau mynediad i safleoedd trwyddedig. Felly, mae'r angen diwygio'r Datganiad Polisi Trwyddedu a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 17eg Tachwedd 2015 i gynnwys y newidiadau hyn.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad:-

(i) bod y newidiadau i Ddeddf Trwyddedu 2003 o ganlyniad i Ddeddf Mewnfudo 2016 yn cael eu nodi;

(ii) bod y Polisi Trwyddedu'n cael ei ddiwygio i gynnwys y newidiadau perthnasol o ganlyniad i Ddeddf Mewnfudo 2016, a bod Gorfodi Mewnfudo'r Swyddfa Gartref yn cael ei ychwanegu at y rhestr Awdurdodau

Cyfrifol.

## 11. CWESTIYNAU O DAN REOL TREFN 10(2)

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau o dan Reol Trefn 10(2).

Terfynwyd y cyfarfod am 17.40pm

Cymeradwydwyd eu bod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau y cytunwyd arnynt ac y'u cofnodwyd yng nghofnodion y cyfarfod ar 10fed Hydref 2017, a'u llofnodi gan y Maer.

__________________________

MAER